# PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, a thrwy gynhadledd fideo ddydd Iau, 26 Medi 2024 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Bobby Feeley, Martyn Hogg, Carol Holliday, Hugh Irving (Cadeirydd), Paul Keddie, Terry Mendies, Gareth Sandilands (Is-gadeirydd) ac Andrea Tomlin ynghyd â Colette Owen (Aelod Addysg Cyfetholedig).

## HEFYD YN BRESENNOL

Yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc, Diane King ac Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth, Emrys Wynne ar wahoddiad y Pwyllgor.

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW), Pennaeth Addysg (GD), Swyddog Cynhwysiant – Gweithredu Anghenion Dysgu Ychwanegol (JE), Prif Reolwyr Addysg (JB a RT) a Phenaethiaid Ysgol Pen Morfa (SD) ac Ysgol Uwchradd Dinbych (GW), Arweinydd Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg / Swyddog Diogelu (WW), Swyddog Datblygu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (MLlJ), Cydlynydd Craffu (RhE), Gweinyddwyr Pwyllgor (RhT-J Cofnodion) a Gweddarlledu (ED).

Cynrychiolwyr / ymgynghorwyr GwE – Jacqueline Chan (Sector Cynradd) a Mair Herbert (Sector Uwchradd)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Alan Hughes a gan Neil Roberts (Aelod Addysg Cyfetholedig).

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitemau 5, 6, 7 ac 8 ar y rhaglen:

Y Cynghorydd Ellie Chard – Llywodraethwr AALl yn Ysgol Tir Morfa a Llywodraethwr Cyngor Tref/Cymuned yn Ysgol Christchurch
Y Cynghorydd Martyn Hogg – Rhiant-lywodraethwr yn Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanelwy
Y Cynghorydd Carol Holliday – Llywodraethwr Cyngor Tref/Cymuned yn Ysgol Penmorfa ac Ysgol Clawdd Offa
Y Cynghorydd Gareth Sandilands – Llywodraethwr AALl yn Ysgol Clawdd Offa
Y Cynghorydd Andrea Tomlin – gan fod perthynas agos ar y staff addysgu yn un o ysgolion uwchradd y sir. Hefyd, roedd yn adnabod aelod o Dîm Gwaith Cymdeithasol Addysg y Cyngor yn dda (eitem 6).

## 3 MATERION BRYS Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau brys gyda'r Cadeirydd na'r Cydlynydd Craffu cyn dechrau'r cyfarfod.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2024.

***<u>Penderfynwyd</u>: y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2024 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.***

<u>Materion yn codi:</u>

Tudalennau 11 – 12 'Adroddiad Diwedd Blwyddyn Cefndy 2023/24': holodd yr aelodau a oedd y fenter wedi newid ei henw o Fentrau Cefndy i Cefndy ac a oedd ymweliadau'r cynghorwyr sir â'r safle gweithgynhyrchu wedi cael eu trefnu. Dywedodd y Cydlynydd Craffu mai enw'r fenter ar y wefan oedd 'Gofal Iechyd a Gweithgynhyrchu Cefndy'. Byddai tri dyddiad posibl yn ystod mis Tachwedd yn cael eu hanfon at gynghorwyr cyn bo hir fel y gallant drefnu ymweliad â'r safle gweithgynhyrchu.

## 5 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR DRAWSNEWID ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc, ynghyd â'r Pennaeth Addysg, adroddiad ar y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Medi 2024 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Nod yr adroddiad yw rhoi diweddariad pellach ar y cynnydd a wnaed i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol ac ysgolion yn bodloni eu gofynion statudol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Roedd y diweddariad yn canolbwyntio ar gynnydd y gwaith o roi diwygiadau ADY Llywodraeth Cymru ar waith, gyda'r nod o wella cefnogaeth i blant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, trosglwyddodd tîm addysg Sir Ddinbych yn llwyddiannus o'r hen system Anghenion Addysg Arbennig (AAA) i'r fframwaith ADY newydd. Roedd hynny'n cynnwys cyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) oedd yn disodli'r datganiadau o AAA. Roedd y Cynlluniau Datblygu Unigol yn sicrhau dull mwy personol o gefnogi dysgwyr, oedd yn cyd-fynd â'r gofynion deddfwriaethol newydd a amlinellir yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Dywedodd y swyddogion fod yr holl staff oedd yn cefnogi myfyrwyr ag ADY wedi cael hyfforddiant cynhwysfawr. Mae'r hyfforddiant wedi eu paratoi i ymdrin â'r prosesau newydd a sicrhau y gallant gyd-weithio'n effeithiol gydag ysgolion, rhieni a budd-ddeiliaid eraill. Hefyd, ymdrechwyd i wella cydweithrediad amlasiantaeth, yn enwedig gydag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, i ddarparu dull mwy cyfannol o gefnogi dysgwyr.

Tynnodd y diweddariad sylw at sawl her a wynebwyd yn ystod y trawsnewid, yn enwedig o ran dyrannu adnoddau a bodloni'r galw cynyddol am asesiadau. Er hyn, roedd y swyddogion wedi bodloni terfynau amser hanfodol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i roi'r system newydd ar waith. Dywedodd y Pennaeth Addysg fod y gwasanaeth yn monitro ac yn craffu'n barhaus ar gydymffurfiaeth ysgolion â gofynion y Ddeddf, fel yr oedd Estyn yn ei wneud. Ers y pandemig, roedd bron i hanner ysgolion y wlad wedi cael eu harolygu gan Estyn, ac o'r 26 a arolygwyd, dim ond un oedd wedi cael argymhelliad yn ymwneud â gwella darpariaeth gwasanaethau ADY.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol, y swyddogion a'r Pennaeth Cynradd:

- gadarnhau bod cynllun cyfathrebu cadarn ar waith i roi gwybod i rieni am y gofynion a roddwyd ar awdurdodau addysg lleol (AALl) ac ysgolion gan Ddeddf 2018 a sut oedd yr AALl ac ysgolion yn cynnig cyflawni'r dyletswyddau hynny. Roedd hyn yn helpu i reoli disgwyliadau. Roedd yr holl fanylion a'r wybodaeth am y gwaith a wnaed ar gael ar wefan y Cyngor. Roedd llawer o gyfathrebu rhwng ysgolion lleol hefyd, oedd yn helpu i rannu gwersi a ddysgwyd, arfer gorau ac ati. Roedd hyn yn ychwanegol at waith rhanbarthol a chenedlaethol i rannu arfer gorau a chefnogi dull cyson ar gyfer y broses drawsnewid. Roedd yr holl ddeialog agored yn gwneud y broses rywfaint yn haws.
- er bod cyllid ar gael ar hyn o bryd tan mis Awst 2025 ar gyfer y 2 swydd athrawon ymgynghorol ADY, roedd y sefyllfa ariannol yn anodd i'r Cyngor cyfan a bydd angen gwneud penderfyniadau anodd o ran y cyllid yn y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd y galw am gefnogaeth ADY ar gynnydd, ond roedd yn rhaid i'r gwasanaeth flaenoriaethu'r holl anghenion addysgol a darparu ei wasanaethau o fewn y gyllideb oedd ar gael iddo.
- cadarnhau bod y tîm addysg yn defnyddio dull amlddisgyblaethol i fodloni anghenion pob unigolyn. Ychwanegodd y Swyddog Cynhwysiant - Gweithredu ADY bod perthnasoedd gwaith agos gyda'r bwrdd iechyd a gwasanaethau plant i sicrhau bod anghenion yr unigolyn yn cael eu bodloni a phan fo'n bosibl, yn cael eu teilwra'n briodol i gefnogi eu hanghenion unigryw.
- cytuno ag aelodau bod y cyfyngiadau ar y gyllideb a'r prinder staff ar draws pob sector yn her barhaus, yn enwedig wrth recriwtio staff arbenigol. Fodd bynnag, roedd gan bob ysgol Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol oedd yn gweithio gyda'r ysgol i liniaru'r heriau oedd yn codi. Roedd Cydlynydd pob ysgol yn gweithio'n agos gyda'i gilydd yn eu clwstwr i gefnogi'r naill a'r llall, rhannu profiadau ac arfer gorau. Dangosodd Pennaeth Ysgol Penmorfa sut oedd yr ysgol yn wynebu heriau ar hyn o bryd gan fod eu Cydlynydd ADY wedi gadael yn ddiweddar. Yn y cyfamser, roedd y Dirprwy Bennaeth a hithau'n gwneud y gwaith ond roeddent yn hynod ddiolchgar am gefnogaeth a chyngor yr AALl pan oeddent ei angen.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***<u>Penderfynwyd:</u> yn amodol ar y sylwadau uchod a chan gydnabod yr heriau lleol a chenedlaethol i fodloni gofynion statudol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 –***

***(i) llongyfarch yr holl fudd-ddeiliaid a chymeradwyo'r gwaith a wnaed hyd yma i ddarparu'r gwaith trawsnewid sydd ei angen i gydymffurfio â'r dyletswyddau dan y Ddeddf; a***
***(ii) gofyn am i adroddiad cynnydd arall gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor mewn deuddeg mis pan fydd disgwyl i bob ysgol a'r Awdurdod Addysg Lleol fod yn cydymffurfio'n llawn â'r dyletswyddau dan y Ddeddf.***

## 6 HYRWYDDO PRESENOLDEB YN YR YSGOL AC YMGYSYLLTIAD MEWN ADDYSG

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc, ynghyd â'r Pennaeth Addysg, adroddiad ar Hyrwyddo Presenoldeb yn yr Ysgol ac Ymgysylltiad Mewn Addysg (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Roedd yr Arweinydd Tîm / Swyddog Diogelu Gwaith Cymdeithasol Addysg, y Prif Reolwyr Addysg a Phennaeth Ysgol Uwchradd Dinbych hefyd yn bresennol ar gyfer y drafodaeth. Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r sefyllfa bresennol o ran presenoldeb ysgol ac ymgysylltiad mewn addysg a'r broses a ddefnyddir i ymdrin â materion pan fo pryder o ran lefel ymgysylltu disgybl unigol gyda'u haddysg. Roedd hefyd yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y mesurau a ddefnyddir i gefnogi disgyblion diamddiffyn i ailgysylltu â'u haddysg. Roedd hefyd yn rhoi dealltwriaeth o'r cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol i ymdrin â'r pryder yn genedlaethol. Roedd presenoldeb yn yr ysgol yn flaenoriaeth genedlaethol ac yn un o flaenoriaethau Estyn hefyd.

Dywedodd swyddogion fod cyfraddau presenoldeb ysgolion ym mlwyddyn ysgol 2018/19 cyn y pandemig ar gyfer ysgolion cynradd yn 94.8% ac ysgolion uwchradd yn 93.7%. Yn y flwyddyn academaidd Medi 2023 i Fehefin 2024, roedd cyfartaledd presenoldeb cyfunol ar gyfer ysgolion cynradd / uwchradd yn 90.6%. Mae hyn wedi cynyddu o 89.2% dros yr un cyfnod yn 2022/23 ar draws Cymru. Yn Sir Ddinbych, roedd cyfanswm ysgolion cynradd / uwchradd gyda'i gilydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2023 / 2024 yn 89.9 %, sy'n cyfateb i 0.7 % yn llai na chyfartaledd Cymru. Yn genedlaethol, bu i 10.3 % o ddisgyblion gyrraedd y trothwy absenoldeb cyson o 10% o sesiynau wedi'u methu ar gyfer y flwyddyn academaidd, sydd unwaith eto'n welliant o 12.9% dros yr un cyfnod yn 2022/23. Roedd ffigwr Sir Ddinbych yn 15.2% dros yr un cyfnod yn 2022/23.

Cafodd yr aelodau wybod bod Cyngor Sir Ddinbych wedi cael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru trwy'r Grant Addysg Awdurdod Lleol i ymdrin ag addysg ac ysgolion a'u cefnogi. Roedd y Gwasanaethau Addysg yn parhau i ddatblygu cysylltiadau cymunedol cydlynol ar draws yr awdurdod i geisio ymdrin â'r duedd hon a chanolbwyntio ar berthyn cymunedol a mynediad at wasanaethau. Nod y dull hwn yw sicrhau bod gan blant fynediad at eu hawl i addysg llawn amser ond hefyd yn cael mynediad at wasanaethau sy'n ehangach na dim ond addysg yn unig. Fel rhan o hyn, roedd y gwasanaeth wedi datblygu strategaeth ymgysylltu â disgyblion sy'n defnyddio'r gwasanaethau sy'n cefnogi'r rhaglen hon ac yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer y gwasanaeth.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol y swyddogion a'r Pennaeth:

- egluro bod y polisi "amserlen lai" mewn addysg yn cyfeirio at sefyllfaoedd pan fo ysgolion neu leoliadau addysg yn lleihau nifer yr oriau neu ddyddiau y mae plentyn neu unigolyn ifanc yn yr ysgol, fel arfer oherwydd anghenion penodol neu broblemau ymddygiad. Weithiau roedd angen hyn i ymdrin â heriau disgyblion, a byddai'r amserlen lai ond yn cael ei defnyddio fel ateb tymor byr, dros dro i helpu disgybl ailintegreiddio i addysg llawn amser. Nid oedd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo defnyddio oriau llai yn y tymor hir neu'n barhaol. Y nod oedd cefnogi'r plentyn wrth ymdrin â'r problemau sylfaenol, megis heriau gydag ymddygiad, pryder, problemau iechyd neu anghenion addysgol arbennig.
- rhoi sicrwydd na fyddai absenoldeb un plentyn, boed hynny'n wedi'i awdurdodi neu beidio, yn effeithio ar addysg plant eraill. Er hynny, byddai athrawon yn cefnogi myfyrwyr oedd wedi bod yn sâl ac wedi colli gwaith; byddai faint o gefnogaeth a roddwyd yn amrywio o un myfyriwr i'r llall ac yn dibynnu ar eu hanghenion. Os oedd yr absenoldeb yn gysylltiedig â salwch hirdymor, byddai ysgolion yn dilyn codau ac arferion sefydledig a osodir gan Lywodraeth Cymru. Ar lefel AALl, byddai'r wybodaeth a gasglwyd yn ddata cyffredinol megis absenoldeb oherwydd salwch/rhesymau meddygol; fodd bynnag, ar lefel ysgol, byddai'r data a gasglwyd yn seiliedig ar y manylion a roddir gan rieni/gwarcheidwaid.
- rhoi sicrwydd nad oedd absenoldeb heb awdurdod ar gyfer gwyliau teuluol yn broblem eang yn Sir Ddinbych.
- cadarnhau nad oedd cysylltiadau rhwng presenoldeb gwael ac ardaloedd o amddifadedd. Roedd effaith y pandemig a'r argyfwng costau byw wedi gwneud y broblem yn waeth, roedd y gwaith i ymdrin â'r materion hyn yn gymhleth a byddai'n cymryd amser i ddwyn ffrwyth.
- dywedwyd bod Rhybuddion Cosb Benodedig yn arf ataliol, a bod hysbysiadau rhybuddio i rieni/gwarcheidwaid am absenoldeb yn effeithiol. Roedd y systemau oedd ar gael iddynt yn effeithiol, ac roedd cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion yn codi. Pe na bai cosbau ariannol am absenoldeb heb awdurdod yn cael eu talu, gallai'r mater fynd i'r llys.
- roedd Polisi Presenoldeb y Gwasanaethau Addysg, Ysgolion a Phlant 2024/25 yn pwysleisio y byddai angen edrych ar absenoldeb plant o'r ysgol fel Cyngor cyfan gan fod ffactorau y tu allan i addysg yn effeithio ar bresenoldeb. I'r rhan fwyaf o wasanaethau eraill, roedd y pandemig yn fater hanesyddol, fodd bynnag, roedd yn dal i gael effaith sylweddol ar ysgolion ac addysg.
- cadarnhau bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn cael effaith negyddol ar y Gwasanaeth Addysg. Roedd y Tîm Gweithwyr Cymdeithasol Addysg wedi cael ei gwtogi o 12 i 4 aelod o staff craidd, oedd yn golygu bod y llwyth gwaith yn anodd ei gynnal. Er bod y staff craidd hyn yn cael eu cefnogi gan dri aelod arall o staff, roedd y cyllid ar gyfer eu swyddi'n dibynnu ar grantiau gan Lywodraeth Cymru, oedd yn cael ei adolygu bob mis Mawrth.
- byddai rhywfaint o absenoldebau heb awdurdod mewn ysgolion bob amser, felly roedd yn bwysig defnyddio dull amlddisgyblaethol i geisio atal rhwystrau i ymgysylltu â disgyblion. Roedd lefel o apathi ymhlith rhai disgyblion am eu dyfodol, ac er mwyn ymdrin â'r apathi a'r ansicrwydd hwn, roedd angen

gweithio gyda'r sectorau masnach a busnes i geisio mapio llwybrau gyrfa i bobl ifanc.

- rhoddwyd sicrwydd i aelodau na ddylai plant fod yn colli ysgol oherwydd Polisi Cludiant Ysgolion y Cyngor, gan fod y polisi hwnnw yn unol â gofynion Mesur Teithio gan Ddysgwyr Llywodraeth Cymru gan nodi y byddai cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i'r ysgol addas agosaf yn amodol ar y meini prawf yn y Mesur. Roedd copi o'r polisi hwn ar gael ar wefan y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***<u>Penderfynwyd</u>*: yn amodol ar y sylwadau uchod -**

***(i)*** ***cymeradwyo ymdrechion a dull ysgolion a'r Awdurdod Addysg Lleol hyd yma i hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb yn yr ysgol ac ymgysylltu mewn addysg gyda disgyblion a rhieni/gwarcheidwaid; a***

***(ii)*** ***er mwyn monitro effeithiolrwydd y polisi presenoldeb templed newydd ar gyfer 2024/25, ynghyd ag unrhyw fentrau eraill a ddefnyddir o ran presenoldeb disgyblion yn yr ysgol a'u hymgysylltiad ag addysg, gofyn am i adroddiad arall ar gynnydd gael ei gyflwyno i'r aelodau mewn 12 mis.***

## 7 TRAWSNEWID CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc, ynghyd â Phennaeth Addysg, adroddiad Trawsnewid Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Yr oedd Swyddog Datblygu CSCA yn bresennol i roi cefnogaeth ar agweddau technegol ar y Cynllun. Yr oedd yr adroddiad yn hysbysu'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed hyd yma yn y gwaith o gyflawni Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn holl ysgolion y sir yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth y Gymraeg; gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad yn dilyn trafodaeth ar adroddiad cynnydd ym mis Medi 2023 mewn perthynas â Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg.

Atgoffwyd yr Aelodau bod gan y Cyngor weledigaeth ddeng mlynedd i gynyddu a gwella'r gwaith cynllunio o ran darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir. Mynegwyd hyn yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor. Erbyn Medi 2032, dyhead Sir Ddinbych yw y byddai 40% o'r holl ddisgyblion saith mlwydd oed yn cael Addysg Cyfrwng Cymraeg. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau, er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, mae'r Cynllun yn nodi saith canlyniad a fydd yn cyfrannu tuag at yr uchelgais. Yr oedd gofyn i'r Cyngor gyflwyno adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru ar gynnydd y Cynllun hwn, a chynhwyswyd copi ohono yn atodiad i'r adroddiad.

Yr oedd y prif gynnydd o ran y Cynllun yn cynnwys gweledigaeth glir a chefnogaeth i ddatblygu prosiectau. Bu Tîm ymroddedig Cefnogi'r Gymraeg yn darparu cefnogaeth ac arweiniad ardderchog i staff ysgolion yn Sir Ddinbych. Yr oedd gwybodaeth yn amlygu buddion dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg ar gael ar wefan CSDd. Hyd yma, mae 6 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi newid eu categori iaith ac wedi dod yn ysgolion T2, gan ymrwymo (dros gyfnod o ddeng mlynedd) i gynyddu faint o Gymraeg a addysgir yn yr ysgol, gyda'r dyhead o addysgu 50% o wersi drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr oedd nifer yr hwyrddyfodiaid i

addysg cyfrwng Cymraeg ac sy'n derbyn cefnogaeth arbenigol yn cynyddu. Yn ogystal, yr oedd cydweithio agos yn digwydd gyda Thîm Ymgynghorol y Gymraeg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn rhannu arferion da, ac yr oedd hyn yn datblygu'n dda.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol, swyddogion a Phennaeth Ysgol Uwchradd Dinbych:

- gynghori bod Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg yn monitro'n rheolaidd y cynnydd a wneir parthed cyflawni CSCA.
- cadarnhau, fel y nodir ym Mharagraff 4.6 yr adroddiad, ei fod yn galonogol bod nifer y disgyblion sy'n derbyn eu haddysg yn nwy o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg mwyaf yn dechrau dychwelyd i'r lefelau a welid cyn Covid. Bu nifer o ffactorau'n gyfrifol am y gostyngiad yn y niferoedd yn dilyn Covid. Y ffactor cyntaf: yn ystod y cyfnod clo nid oedd plant o aelwydydd di-Gymraeg a oedd yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gallu clywed na siarad yr iaith am gyfnod hir, felly teimlai'r teuluoedd na allent gefnogi addysg y plant, a dyma'u rheswm dros eu hanfon i leoliadau addysg cyfrwng Saesneg pan ailagorodd yr ysgolion. Ffactor arall oedd bod gweithgareddau cyn ysgol wedi cau o ganlyniad i COVID-19. Cafodd hyn effaith enfawr ar addysg Gymraeg, oherwydd mae'r saith mlynedd gyntaf o addysg unrhyw blentyn yn hanfodol, ac yr oedd colli addysg Gymraeg gynnar yn niweidiol iawn i addysg cyfrwng Cymraeg. Er hynny, bu'r Gwasanaeth Addysg yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion, y Mudiad Meithrin, yr Urdd, Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG), ac ati, mewn ymgais i wrthdroi'r tuedd. Yr oedd yr ystadegau diweddaraf yn dangos bod y gwaith hwn bellach yn dechrau dwyn ffrwyth, a'r niferoedd sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg yn dychwelyd bron i'r lefelau a welid cyn Covid.
- dangos sut oedd y defnydd dyddiol o'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael ei gyflwyno a'i ddatblygu. Yr oedd Ysgol Uwchradd Dinbych yn enghraifft ardderchog o'r ffordd y mae menter Cymraeg Campus – sy'n annog defnyddio'r Gymraeg – yn gweithio. Yr oedd y cymhelliant dros lwyddiant y fenter yn dod o'r brig i lawr, ac yn cael effaith gadarnhaol drwy'r ysgol i gyd. Amlinellodd y Pennaeth y cynllun datblygu yr oeddynt wedi ei roi ar waith a oedd yn cynnwys yr holl staff, nid staff addysgu yn unig; e.e. yr oedd staff y ffreutur yn cymryd archebion y disgyblion ac ati yn y Gymraeg. Yr oedd Safon Uwch Cymraeg yn bwnc poblogaidd yn yr ysgol, ac yr oedd disgyblion Blwyddyn 7, a oedd eisoes yn gyfarwydd â defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd yn eu hysgol gynradd, yn hynod gyfforddus â dull Cymraeg Campus wrth bontio i'r ysgol uwchradd. Yr oedd yr ysgol eisoes wedi derbyn gwobr efydd Cymraeg Campus am ei hanogaeth a'i defnydd o'r Gymraeg, ond yr oedd ar fin derbyn achrediad lefel arian. Yr oedd 7 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg neu Ddwy Iaith y sir wedi cyfrannu tuag at Fframwaith Cymraeg Campus, ac yr oedd pob un ar hyn o bryd yn ymdrechu i gyflawni gwahanol lefelau o achrediad. Yr oedd Fframwaith Cymraeg Campus yn fenter gan CSDd; fodd bynnag, yr oedd LlC ar hyn o bryd yn cymryd diddordeb mawr yn y dull hwn ac yn monitro ei ddatblygiad yn ofalus. Y nod yn y pen draw oedd 'normaleiddio' y defnydd o'r iaith mewn sefyllfaoedd dyddiol.

- pwysleisio mai un o’r heriau sylweddol yr oeddynt yn eu hwynebu wrth gyflawni CSCA oedd staffio, yn arbennig wrth recriwtio staff addysgu mewn meysydd pwnc arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr oedd Llywodraeth Cymru wedi creu amryw fwrsariaethau i annog pobl i fynd i’r proffesiwn; fodd bynnag, ni fyddai hyn yn datrys y prinder yn y byrdymor.

Canmolodd y Cynghorydd Hogg y tîm ar ddatblygu adnodd ‘Sglein ar lein’ – bu ei ferch yn ei ddefnyddio ac yr oedd wedi bod yn ddefnyddiol iawn iddo yntau fel un sy’n dysgu’r iaith. Teimlai ei fod yn adnodd gwych i gynorthwyo gyda phopeth yn ymwneud â’r Gymraeg. Credai y byddai sicrhau bod y Gymraeg o gwmpas plant drwy’r adeg yn arwain at gysylltu ac ymwreiddio’r iaith ym mywyd pob dydd. Byddai wedyn yn cyrraedd trobwynt a fyddai’n arwain at fwy o bobl yn siarad yr iaith. Cytunodd y swyddogion i drosglwyddo’r ganmoliaeth ynglŷn ag adnodd ‘Sglein ar lein’ i’r swyddogion perthnasol.

Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: yn amodol ar y sylwadau uchod –***

***(i) cymeradwyo’r cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyflawni Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn holl ysgolion y sir yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth Gymraeg; a***

***(ii) bod y gwaith o fonitro cyflawniad Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn y dyfodol yn cael ei wneud gan Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg, ar yr amod bod problemau neu rwystrau sylweddol rhag cyflawni’r Cynllun yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Craffu am archwiliad manwl pe deuid ar eu traws.***

**8 CWRICWLWM I GYMRU**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc, ynghyd â Phennaeth Addysg, adroddiad Cwricwlwm i Gymru (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Yr oedd ymgynghorwyr GwE hefyd yn bresennol i gefnogi staff y Gwasanaeth Addysg. Nod yr adroddiad oedd rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd a wnaed gan ysgolion ers i’r Cwricwlwm i Gymru ddod yn statudol ym mis Medi 2022. Yr oedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am wersi a ddysgwyd o werthusiadau ar draws ysgolion yn ystod y cam gweithredu dechreuol a’r effaith ar staff a dysgwyr.

Manylai’r adroddiad ar y cynnydd a wnaed wrth weithredu a gwreiddio’r Cwricwlwm newydd i Gymru mewn ysgolion cynradd ac ym mlynyddoedd 7 ac 8 mewn ysgolion uwchradd – beth oedd yn gweithio’n dda, meysydd i’w gwella a’r gwersi a ddysgwyd gan yr holl fudd-ddeiliaid yn ystod y cam gweithredu dechreuol. Yn ogystal, yr oedd yn darparu gwerthusiad o’r broses weithredu dros yr holl gyfnodau allweddol, effaith y Cwricwlwm ar recriwtio a chadw staff, trosolwg o’r adborth a dderbyniwyd gan benaethiaid, athrawon a staff ysgolion am eu profiadau o’r broses weithredu a manteision ac / neu anfanteision y Cwricwlwm newydd i ddysgwyr.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod y Cwricwlwm newydd i Gymru wedi dod yn statudol i’r holl ddysgwyr o’r Dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6 ym mis Medi 2022. Yr oedd pob

ysgol a lleoliad uwchradd wedi dechrau gyda'r Cwricwlwm i Gymru ym Mlynyddoedd 7 ac 8 erbyn mis Medi 2023.

Yr oedd pob ysgol wedi dylunio eu cwricwlwm yn unol â'r Pedwar Diben i fodloni gofynion gorfodol y Cwricwlwm i Gymru, a chynigir cwricwlwm cytbwys i fodloni anghenion pob dysgwr. Cafodd y broses o gyflwyno'r Cwricwlwm fesul dipyn mewn ysgolion uwchradd effaith wahanol i effaith y broses gyflwyno fyrrach mewn ysgolion cynradd, a bu arweinwyr ac ymarferwyr yn ymwneud â newid parhaus a sylweddol bob blwyddyn rhwng 2022 a 2026. Byddai Blwyddyn 9 yn dechrau'r Cwricwlwm newydd ym mis Medi 2024. Byddai dau gam gweithredu pellach yn dilyn wrth i'r dysgwyr hyn ddechrau'r cymwysterau 14-16 newydd yn 2025 a'r dysgwyr Blwyddyn 8 presennol yn 2026. Datblygwyd dogfennau crynhoi cwricwlwm gan bob ysgol a'u darparu i rieni a'r gymuned leol yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

Ychwanegodd swyddogion fod cyflwyno'r Cwricwlwm newydd yn ddarn pwysig o ddiwygiad. Yn ogystal â newidiadau ADY, y gwaith a wnaed gyda Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) a gwaith adfer yn dilyn Covid, yr oedd wedi golygu llawer iawn o waith i'r Gwasanaeth Addysg a staff ysgolion. Fodd bynnag, yr oedd yr holl ysgolion wedi croesawu'r newidiadau a'r gwaith a oedd yn gysylltiedig â'r diwygio.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol, Swyddogion a chynrychiolwyr GwE:

- ddweud bod y gwersi a ddysgwyd gan y sector cynradd wedi cynorthwyo'r gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm yn y sector uwchradd, a phwysleisiwyd bod dull clwstwr o weithio wedi bod o gymorth mawr o ran y llwyth gwaith a oedd yn gysylltiedig â'r cyflwyno yn y sector uwchradd, yn arbennig cynllunio ar gyfer dilyniant. Fodd bynnag, yr oedd gwahaniaethau yn y ffordd y mae'r sectorau cynradd ac uwchradd yn gweithio – e.e. y sector cynradd yn cymryd ymagwedd gyfannol at addysg a'r sector uwchradd wedi ei seilio fwy ar ddisgyblaeth. Yr oedd cyflwyno'r Cwricwlwm newydd wedi herio'r gwasanaeth a'r ysgolion i feddwl am yr hyn yr oeddynt yn ei addysgu, pam, a sut yr oedd yn cael ei addysgu. Yr oedd y Cwricwlwm newydd yn cynnwys llawer mwy o ddysgu ysgogol ac yn yr awyr agored, felly rhoddwyd mwy o sylw i ddefnyddio sgiliau a chynnwys yn y dysgu.
- cadarnhau bod cyllid i ategu dysgu proffesiynol bob amser yn her. Fodd bynnag, yr oedd ysgolion yn greadigol wrth sicrhau eu bod yn cael y buddion mwyaf o unrhyw gyllid grant a dderbynnid. Byddent yn parhau i ymgysylltu mewn dysgu proffesiynol gymaint â phosibl, rhannu arferion gorau ac adnoddau, defnyddio dulliau fel dysgu 'ysgol i ysgol', yn ogystal â chael elfen o hyfforddiant proffesiynol pwrpasol. Yr oedd yn ofynnol i bob ysgol lunio cynllun gwella. Byddai GwE, yn rhan o'i waith, yn herio gallu'r ysgol i gyflawni a darparu ei gynllun gwella, ac yr oedd rhan o'r broses herio hon yn canolbwyntio ar hyder yr ysgol wrth sicrhau'r hyfforddiant angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni ei Chynllun Gwella.

Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ynglŷn â pha mor galonogol ydoedd i weld disgyblion yn dysgu codio a sgiliau TG eraill i'w cynorthwyo gyda chyflogaeth yn y

dyfodol. Yr oedd Llywodraeth Cymru'n annog addysg a sgiliau TG. Fodd bynnag, yr oedd hyn yn creu heriau gan fod cyflogi staff sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau digidol priodol yn anodd ar adegau. Yr oedd hyder staff yn eu sgiliau digidol eu hunain weithiau'n broblem; fodd bynnag, bu'r dull 'Clwstwr Ysgolion' yn ddefnyddiol mewn sawl achos gan fod yna, yn amlach na pheidio, 'arbenigwr' neu aelod o staff 'digidol hyderus' mewn un neu fwy o'r ysgolion a allai ddarparu cefnogaeth i gydweithwyr mewn ysgolion eraill. Ar adegau, darparu cefnogaeth i feithrin hyder cydweithwyr yn eu sgiliau eu hunain oedd yr unig beth oedd ei angen. Yr oedd tuedd bod prinder athrawon a oedd yn hyderus wrth addysgu sgiliau TG drwy gyfrwng y Gymraeg. Meysydd arbenigol eraill lle'r ymddangosai fod prinder unigolion a oedd yn gymwys i addysgu'r pynciau oedd ieithoedd tramor modern ac Iaith Arwyddion Prydain, yn enwedig yn y sector cynradd. Pan ddigwyddai hyn, gofynnid am gefnogaeth gan ysgol uwchradd leol er mwyn gallu addysgu'r pynciau hyn. Mae manteision i hyn hefyd, oherwydd yr oedd yr ysgolion hynny'n gallu dod i adnabod eu darpar ddisgyblion ymlaen llaw cyn iddynt bontio. Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***Penderfynwyd**: yn amodol ar y sylwadau uchod –*

***(i)** cydnabod y gwaith a wnaed hyd yma wrth weithredu a gwreiddio'r Cwricwlwm i Gymru yn ysgolion y sir, ac ym mlynyddoedd 7 ac 8 mewn ysgolion uwchradd, yn cynnwys arferion gorau a nodwyd, gwersi a ddysgwyd a meysydd i'w gwella ar gyfer parhau i gyflwyno'r Cwricwlwm fesul dipyn yn y sector addysg uwchradd; a*

***(ii)** gofyn i adroddiad cynnydd a gwerthuso pellach ar weithredu'r Cwricwlwm gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi 2026 yn dilyn cyflwyno Ton 1 y cymwysterau TGAU newydd.*

## 9 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu'r adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei raglen waith.

Hysbysodd y Cydlynydd Craffu aelodau'r Pwyllgor fod ganddynt raglen waith lawn yn eu cyfarfod nesaf ar 28 Tachwedd – byddai dwy o'r eitemau yn rhai sylweddol, sef 'Recriwtio, Cadw a Chynllunio'r Gweithlu' a'r adroddiad monitro ar 'Ysgol Crist y Gair'.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau hefyd bod Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi cyfarfod yr wythnos flaenorol. Nid ychwanegwyd unrhyw eitemau i Gynllun Gwaith Pwyllgor Craffu Perfformiad. Trefnwyd cyfarfod nesaf y Grŵp ar gyfer 25 Tachwedd.

Yr oedd y ddogfen 'Briff Gwybodaeth' a ddosbarthwyd i aelodau'r Pwyllgor dros e-bost yn gynharach yr wythnos honno yn cynnwys adroddiadau gwybodaeth yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad yn ôl Gweithdrefn Gwyno Gorfforaethol y Cyngor, 'Eich Llais', a'r 'Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig'. Dywedwyd wrth yr aelodau, os oedd ganddynt unrhyw bryderon yn ymwneud â pherfformiad y Cyngor ar ôl archwilio'r adroddiadau hyn, gallent wneud cais i'r Pwyllgor Craffu ymchwilio'n fanwl i unrhyw feysydd pryder. Gellid gwneud

hyn drwy lenwi Ffurflen Cynnig gan Aelodau, sydd ynghlwm yn Atodiad 2 adroddiad Rhaglen Waith Craffu.

Felly:

***Penderfynwyd*: cadarnhau Rhaglen Waith y Pwyllgor, fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.**

## 10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Siaradodd yr Is-gadeirydd am gyfarfod diweddar y bu'n bresennol ynddo gyda chynrychiolwyr o'r Grŵp Adolygiad gan Gymheiriaid a fu'n ymweld â'r Awdurdod yn ddiweddar.

***Penderfynwyd*: nodi'r adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 1pm.